Cymorth Cynllunio Cymru | Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Ionawr 2009

Yn y rhifyn yma...

- Llawlyfr cynllunio newydd i Sipsiwn a Theithwyr
- Cydweithredu ymarferol yn y gymuned
- Astudiaeth achos
- Digwyddiadau
- Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Gwahoddiad

Noson Gwis Cymorth Cynllunio Cymru a Chynllunwyr Ifanc RTPI Cymru

Mae James y Cwisfeistr unwaith eto yn gwahodd cyfeillion a chefnogwyr Cymorth Cynllunio Cymru i Noson Gwis ar **nos Iau, Chwefror 5ed 2009** am 6.30yh (bydd y cwis yn cychwyn yn brydlon am 7yh) yn Tiger Tiger, Caerdydd.

Cost y cwis fydd £4 y pen (i'w dalu ar y noson) gyda'r holl elw'n mynd at Gymorth Cynllunio Cymru. Rydym yn chwilio am dimau o ddim mwy na 5 a rhoddir croeso i unrhywun sydd ddim yn gynllunydd!

Cewch ffurflen gofrestru a chyfarwyddiadau sut i gyrraedd y lleoliad ar ***http://www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/quiznight***.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cwis, cysylltwch â James Davies ar ***02920 464 205*** neu ***james@cymorthcynlluniocymru.org.uk***.

Llawlyfr cynllunio newydd i Sipsiwn a Theithwyr

Back to Menu

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru newydd gyhoeddi llyfryn â'r teitl *Cynllunio ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr*, a gafodd ei baratoi gan Gymorth Cynllunio Cymru. Mae'n esbonio mewn iaith syml y rheolau a threfniadau ar gyfer sefydlu safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar hawliau pobl sy'n byw ar safle heb ganiatâd cynllunio. A chewch awgrymiadau lle gallwch fynd am ragor o gymorth neu wybodaeth.

Cafodd y lluniau yn y llyfryn eu cynhyrchu gan fyfyrwyr y *Monkton Priory Project* yn Sir Benfro. Hoffai Cymorth Cynllunio Cymru ddiolch o galon i'r myfyrwyr am eu gwaith campus, a hefyd i Andrée Morgan-Andrews, Bev Stevens, Charlotte Cortazzi, Kay Powell, Max Smith, Pauline Le Britton, Steve Ball a Susan Alexander am eu cyfraniadau gwerthfawr at y prosiect.

Gallwch lawrlwytho'r llyfryn oddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar ***http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidance/gandtcaravansites/?skip=1&lang=cy***. Mae copïau papur ar gael am ddim oddi wrth ***Y Ganolfan Gyhoeddiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; ffôn: 02920 823 683; e-bost: assembly-mailto:publications@wales.gsi.gov.uk***.

Cydweithredu ymarferol yn y gymuned

Back to Menu

Yn ddiweddar, treuliodd tîm staff Cymorth Cynllunio Cymru ddiwrnod egnïol yn y goedwig yn helpu adeiladu cylch coed ac ardal dysgu am fywyd gwyllt ym Mharc Gwledig Porthceri. Roeddem yn chwilio am her fyddai'n ein cymryd allan o'n rôl arferol ac hefyd helpu'r gymuned, a dyna gawsom yn bendant ym Morthceri!

Trefnwyd y diwrnod gan Busnes yn y Gymuned dan adain eu rhaglen gweithwyr yn gwirfoddoli. Ein her oedd clirio llannerch coetir o brysgoed a mieri, creu llwybr cerdded newydd a chreu cylch coed gyda digon o eisteddle i grwpiau o hyd at 30 o blant a gosod blychau i ystlumod ac adar.

Dywedodd Mel Stewart, ceidwad parc ym Morthceri: *"Mae hyn yn adnodd gwych i'r Parc, i ysgolion sy'n ymweld ac i grwpiau cymunedol a all ei ddefnyddio ar gyfer pob math o weithgareddau awyr agored. Bydd y gweithgareddau'n gwneud i blant werthfawrogi byd natur. Mae eisoes wedi ei ddefnyddio gan y Grŵp Gwylio Bywyd Gwyllt, sydd wedi ychwanegu rhai cartrefi i ddraenogod."*

Mae tîm staff Cymorth Cynllunio Cymru'n chwilio am brosiect cymunedol heriol arall ar gyfer tymor yr hydref nesaf. Os byddai eich prosiect yn elwa o gael cymorth wyth llaw egnïol am ddiwrnod, cysylltwch â ni (manylion isod).

Astudiaeth Achos

Back to Menu

Teulu o Deithwyr yn ennill apêl

Cefnogodd Cymorth Cynllunio Cymru grŵp o Deithwyr a enillodd apêl i gael cadw eu tri carafán ar safle o'u heiddo yn ne Cymru.

Roedd y teulu dan sylw wedi bod yn byw ar ddarn o dir roeddent wedi ei brynu rai blynyddoedd yn ôl, ond fe gawson nhw rybudd gorfodi pan ddaeth yn amlwg nad oedd caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd preswyl ar y safle.

Cyflwynodd y teulu gais cynllunio i gadw un garafán fawr statig a dwy garafán deithiol ar y safle. Cafodd y cais ei wrthod ar y sail bod y safle mewn cefn gwlad agored (lle fel arfer ni chaniateir defnydd preswyl heblaw os oes angen amaethyddol), ac oherwydd bod y safle mewn gorlifdir â risg uchel.

Yn dilyn gwrthod eu cais gofynnodd y teulu i Gymorth Cynllunio Cymru am help gyda pharatoi apêl. Gan fod Cymorth Cynllunio Cymru yn ystyried

Sipsiwn a Theithwyr yn grŵp sy wir angen help, rhoddodd ein tîm gyngor tymor hir, cefnogaeth ac adfocatiaeth i'r teulu.

Wrth i'r apêl fynd yn ei flaen, cynorthwyon ni i baratoi achos y teulu drwy gofnodi datganiadau o amgylchiadau personol, paratoi llythyrau, paratoi asesiad o risg gorlifo ac yn y diwedd siarad ar eu rhan yng ngwrandawiad yr apêl.

Canolbwyntiodd eu hachos ar y ffaith nad oedd safle amgen ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yn y sir, fel y dylai fod yn ôl cylchlythyr *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* Llywodraeth y Cynulliad. Felly dylai'r teulu gael aros ar eu safle am nad oedd unman arall ganddyn nhw i fynd.

Cytunodd yr Arolygydd Cynllunio a chaniatáu i'r teulu aros ar y safle dros dro am dair blynedd ar yr amod bod cynllun gadael yn cael ei lunio i sicrhau y gall y teulu adael y safle'n ddiogel petai llif yn digwydd.

Digwyddiadau

Back to Menu

Os hoffech wybod mwy am unrhy un o'r digwyddiadau a restrir, cysylltwch â ni (gweler isod).

29 Ionawr 2009, Blaenau Ffestiniog

Sesiwn hyfforddi gan Gymorth Cynllunio Cymru ar Gynlluniau Datblygu Lleol i Gyngor Tref Ffestiniog

4 Chwefror 2009, Sir Gâr

Gweithdy Cynllun Datblygu Lleol i gynghorwyr tref a chymuned a hwylusir gan Gymorth Cynllunio Cymru ar ran Cyngor Sir Gâr

5 Chwefror 2009, Prifysgol Caerdydd

Seminar gan Gymorth Cynllunio Cymru ar foeseg mewn cynllunio trefol ar gyfer myfyrwyr Dylunio Trefol

5 Chwefror 2009, Caerdydd

Noson Gwis Cymorth Cynllunio Cymru a Chynllunwyr Ifanc RTPI Cymru. Gweler uchod am fanylion.

14 Chwefror 2009, Sir Gâr

Gweithdy Fforwm Prif Fudd-deiliaid y Cynllun Datblygu Lleol a hwylusir gan Gymorth Cynllunio Cymru ar ran Cyngor Sir Gâr

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Llinell Gymorth: 02920 45765

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Prif swyddfa

Cymorth Cynllunio Cymru, Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Caerdydd CF10 5BB

Ffôn: 02920 464 225

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas

Prif Weithredwr

Ffôn: 02920 464 225

Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser

Gweithiwr Datblygu'r Gogledd

Ffôn: 01286 882 834

Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

James Davies

Cynlluniwr a Rheolwr Achosion

Ffôn: 02920 464 205

Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Sue Saunders

Gweinyddydd

Ffôn: 0290 464 225

Ebost: susan@cymorthcynlluniocymru.org.uk